Yn ystod gwyliau'r haf cawsom ar ddeall bod Mrs Eirian Morgan yn ein gadael. Bu Mrs Morgan yn ofalwraig yr ysgol am bymtheg mlynedd yn ogystal â chynorthwyo adeg yr awr ginio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwelir ei heisiau yn fawr iawn gan iddi fod yn deyrngar a chefnogol i holl weithgareddau'r ysgol am gyfnod maith. I ddangos ein gwerthfawrogiad o'i llafur diflino bwriedir ei anrhegu yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd.

Gadawodd Miss Eleri Davies yr athrawes fro hefyd gan iddi gael ei phenodi'n brifathrawes Ysgol Cross Inn, Llanon. Wrth ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol, diolchwn iddi am ei chymorth dros y ddwy flynedd aeth heibio.

Croesawn Mrs Alwena Davies a Mrs Gwenda Thomas atom fel y ddwy oruchwylwraig newydd adeg yr awr ginio. Croeso hefyd i blant newydd i'r ysgol sef Clair Wilkins, Aled Davies, Robert Glyn Hughes, Reian Jones ac Ina Picken. Yr un yw'r croeso i Mrs Sheila Byers a Mr Richard Evans o Goleg y Brifysgol Aberystwyth sydd gyda ni am bythefnos.